

**SSce**  
**CYMRU**



SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN  
ADDYSG YNG NGHYMRU



# BWLETIN MISOL

MAI 2026




**SSce**  
**CYMRU**

 CLILC  
WLGA

# Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...

*“Yn ystod mis Ebrill, fe wnaethom nodi Mis y Plentyn Milwrol Rhyngwladol (MotMC) yn gyfle i gydnabod plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog, ac i ddiolch iddynt am y cryfderau unigryw y maent yn eu cyflwyno i fywyd ysgol. Ledled Cymru, cymerodd ysgolion, awdurdodau lleol ac aelodau rhwydwaith SSCE Cymru ran mewn cynulliadau, gwaith celf dant y llew, ysgrifennu creadigol, gweithgareddau corfforol ar thema'r Lluoedd Arfog, a Diwrnod 'Porffor i Fyny'. Ar adeg pan fydd newyddion o bob cwr o'r byd yn gallu teimlo'n ansicr, ac mae gwrthdaro yn parhau i effeithio ar deuluoedd a chymunedau, mae'r eiliadau hyn o gysylltiad yn bwysicach nag erioed. Mae ysgolion yn chwarae rôl hanfodol fel lleoedd arferol, diogelwch a pherthyn, lle gall pob plentyn deimlo ei weld, ei glywed a'i gefnogi. I gael rhagor o newyddion a lluniau o ddathliadau MotMC, ewch i dudalen we [Mis y Plentyn Milwrol SSCE Cymru](#).”*





Mae hyn yn gyfle i'n tîm gydnabod SEREN SSCE Cymru yn gyhoeddus, a dweud diolch i blentyn y Lluoedd Arfog, aelod o staff ysgol, cydweithiwr gwaith, aelod o'r rhwydwaith neu sefydliad sydd wedi cydweithio'n gadarnhaol â ni neu wedi dangos cefnogaeth eithriadol i blant milwyr mewn addysg a'u cymuned Lluoedd Arfog lleol. Rydym yn ddiolchgar i weithio gydag unigolion a grwpiau gwirioneddol ysbrydoledig sy'n sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yma yng Nghymru.


### Seren y mis – Mawrth 2026

Mae Finola yn hyrwyddwr gwerthfawr iawn ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Phen-y-bont ar Ogwr, gan gryfhau cefnogaeth gydgyssylltiedig i bersonél sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr a'u teuluoedd, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl a lles. Gyda mwy na 17 mlynedd o brofiad mewn gwaith ieuenctid a chymunedol, mae hi'n dod ag arbenigedd ac empathi sylweddol i'r rôl. Mae SSCE Cymru yn ddiolchgar am gydweithrediad cyson a chefnogaeth ymarferol Finola, gan gynnwys hyrwyddo ein gwaith, mynychu Gŵyl Lluoedd Arfog De Cymru, a gweithio'n agos gyda chydweithwyr awdurdodau lleol i gryfhau rhwydweithiau lleol. Mae hi hefyd wedi cefnogi digwyddiadau Addewid Disgyblion y Lluoedd Arfog ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, gan helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu gwranddo arnynt a'u cynnwys. Ar hyn o bryd mae Finola yn cydlynu Gŵyl y Lluoedd Arfog ar gyfer plant y Lluoedd Arfog yn Abertawe ar ran yr awdurdod lleol, ac mae tîm SSCE Cymru yn falch o gefnogi'r digwyddiad. Mae cyfleoedd fel hyn yn helpu plant y Lluoedd Arfog i gysylltu â chyfoedion sy'n rhannu profiadau tebyg, tra'n dathlu cymuned ehangach y Lluoedd Arfog mewn ffordd gadarnhaol a chynhwysol. Llongyfarchiadau, Finola, a diolch yn fawr am eich ymrwymiad a'ch partneriaeth barhaus; Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi ar brosiectau yn y dyfodol.



**Finola Pickwell**  
Swyddog Cyswilt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol





**ssce**  
**CYMRU**

SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN  
ADDYSG YNG NGHYMRU

Lansiwyd menter Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru SSCE Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a chymau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â chymuned eu Lluoedd Arfog.

**Y mis hwn, rydym yn falch o longyfarch yr ysgolion canlynol am gyflawni eu statws AFFS Cymru:**

**Arian:** Ysgol Caergeiliog (Ynys Mon)

**Llongyfarchiadau** i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Hyd yn hyn, mae 49 o ysgolion wedi cyflawni eu statws AFFS Cymru. Mae 49 wedi ennill Efydd, 16 wedi ennill Arian a 8 wedi ennill Aur!!



49



16



8



**i** Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

# E-ddysgu SSCE Cymru

Ym mis Ebrill 2024, lansiodd SSCE Cymru ein pecyn hyfforddi e-ddysgu dwyieithog ar alw ar Gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg yng Nghymru!!!

Wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae pecyn hyfforddi e-ddysgu SSCE Cymru wedi'i gynllunio i roi'r offer a'r hyder i addysgwyr ddeall a chefnogi anghenion plant milwyr yn eu lleoliadau addysg yng Nghymru, ond gall unrhyw un a hoffai ddysgu mwy am gefnogi plant milwyr mewn addysg.

Mae'r pecyn hyfforddi AM DDIM hwn yn cynnwys naw pwnc a bydd yn cymryd tua dwy awr i'w gwblhau. Bydd eich cynnydd yn cael ei arbed fel y gallwch barhau lle gwnaethoch adael ac ailedrych ar yr hyfforddiant yn ôl yr angen.

**Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn yr e-ddysgu yw:**

- Cyflwyniad i SSCE Cymru
- Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Profiadau plant y milwyr
- Addysg yng Nghymru
- Adnabod plant milwyr
- Iechyd meddwl a lles
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Cyllid i gefnogi plant y milwyr
- Ymchwil a thystiolaeth.

*“Cysylltiadau gwych y byddaf yn eu defnyddio ac yn gynhwysfawr iawn. Roeddwn i wrth fy modd â'r fideos.”*

*“Mae sawl rhan o'r hyfforddiant yma a fydd yn effeithio ar fy nghefnogaeth ac ymarfer o fewn fy ysgolion.”*

*“Roedd y clipiau llais a'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol iawn drwyddi.”*

Roedd 100% o'r cyfranogwyr o'r farn bod yr e-ddysgu'n fuddiol



ARMED FORCES  
COVENANT  
LLUOEDD ARFOG  
CYFAMOD

# Gêm nadroedd ac ysgolion SSCE Cymru



Mae tîm SSCE Cymru yn gyffrous i lansio'r adnodd newydd hwn, fel ffordd o gydnabod bod plant y Lluoedd Arfog yn wynebu profiadau cadarnhaol a heriol.

Gellir defnyddio'r gêm yn ystod gweithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog neu fel adnodd DPP hwyllog i staff.

Mae'r dyfyniadau sydd wedi'u cynnwys ar y gêm wedi'u cymryd o rai o weithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog yr ydym wedi'u cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fe wnaethon ni fwynhau chwarae fersiwn maint llawr mawr o'r gêm nadroedd ac ysgolion yn ein Gwyliau'r Lluoedd Arfog a gynhaliwyd ledled Cymru ddiwedd 2025.

Cysylltwch â [SSCECymru@wlga.gov.uk](mailto:SSCECymru@wlga.gov.uk) am gêm nadroedd ac ysgolion AM DDIM ar gyfer eich ysgol



# Caneuon plant y Lluoedd Arfog

Yn ystod Mis y Plentyn Milwrol, lansiodd SSCE Cymru bum cân, a ysgrifennwyd gan blant y Lluoedd Arfog ledled Cymru mewn cydweithrediad â'r cyfansoddwr caneuon, Otto Aday, o [Never Such Innocence](#).

Mae'r caneuon, a grëwyd yn ystod Gwyliau Lluoedd Arfog SSCE Cymru, yn taflu goleuni ar eu meddyliau, eu teimladau a'u profiadau byw o fywyd y Lluoedd Arfog. Mae'r darnau pwerus hyn yn dal balchder, gwytnwch, cysylltiad a realiti tyfu i fyny mewn teulu Lluoedd Arfog yn eu lleisiau eu hunain 🎵



# Adnoddau SSCE Cymru

## Cefnogi plant mewn cyfnod o wrthdaro

Mae gan SSCE Cymru dudalen we sy'n ymroddedig i ddarparu adnoddau sy'n berthnasol i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod cyfnod o wrthdaro.

Er bod rhai o'r adnoddau yn cyfeirio at wrthdaro penodol, gellir cymhwyso llawer o'r adnoddau i wrthdaro eraill. Mae amseroedd o wrthdaro ac argyfwng yn effeithio ar lawer o deuluoedd, gwasanaeth a sifil, ac mae cymuned ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod ein teuluoedd yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn ystod cyfnod a allai fod yn heriol.

**Mae rhai o'r adnoddau sydd wedi'u cynnwys ar y dudalen we yn cynnwys:**

- [SSCE Cymru: Adnoddau a argymhellir Padlet](#)
- [UNICEF: Sut i siarad â'ch plant am wrthdaro a rhyfel](#)
- [Childline: Pryderon am y byd](#)
- [Achub y Plant: Sut i siarad â phlant am ryfel](#)
- [Barnardos: Siarad â phlant am ryfel](#)
- [Cymdeithas Seicolegol Prydain: Cefnogi plant i reoli pryder dros ryfel, gwrthdaro ac argyfyngau](#)
- [Place2Be: Siarad â phlant a phobl ifanc am ryfel a gwrthdaro](#)

# Mis y Plentyn Milwrol

## Month of the Military Child

Ebrill/April | #MotMCCymru

Mae wedi bod yn anhygoel derbyn llawer o luniau gan ysgolion ac awdurdodau lleol, gan ddangos i ni sut y wnaethon nhw ddathlu Mis y Plentyn Milwrol 2026!  
Peidiwch ag anghofio anfon eich lluniau at [SSCECymru@wlga.gov.uk](mailto:SSCECymru@wlga.gov.uk), fel y gellir eu hychwanegu at wefan SSCE Cymru.



Cliciwch yma i weld manylion gweithgareddau #MotMCCymru



# Mis y Plentyn Milwrol Month of the Military Child



Ebrill/April | #MotMCCymru



## Neges gan rai SSCE Cymru, Ambasadwyr Plentyn Gwasanaeth:

*“Gobeithiwn eich bod wedi cael Mis Gawr o Blentyn Gwasanaeth gwych!*

*Diolch i bob ysgol a phob plentyn Gwasanaeth a rennir eich llais a helpu creu newid. Oherwydd i chi siarad, gwrando ar eraill, a chymryd rhan mewn gweithgareddau Addewid Plentyn Gwasanaeth ac digwyddiadau eraill; yn ystod Ebrill, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei diffiniad o blentyn Gwasanaeth. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu cydnabod ac yn gallu cael dealltwriaeth a chefnogaeth mewn ysgol a thu hwnt, gan gynnwys plant sydd â rhieni neu ofalwyr wedi gwasanaethu yn ystod y chwe blynedd diwethaf, a’r rhai sydd wedi colli rhiant neu ofalwr tra’n gwasanaethu. Roedd eich straeon yn bwysig. Roedd eich syniadau yn bwysig. Ac mae eich dewrder wedi helpu sicrhau bod plant Gwasanaeth yn cael eu gweld, eu gwerthfawrogi, a’u cefnogi’n well ledled Cymru. Parhewch i siarad, parhewch i ofalu am eich gilydd, a pharhewch i atgoffa oedolion sut yw bywyd mewn gwirionedd i blant Gwasanaeth. Rydym yn falch ohonoch, ac rydym yn ddiolchgar i ysgolion am sefyll ochr yn ochr â’r Fyddin. Rydym yn falch, ac yn ddiolchgar i ysgolion am standio gyda theuluoedd y fyddin.”*

# Digwyddiadau i ddod

## YDYCH CHI'N GWEITHIO GYDA PHLANT O DEULUEDD Y LLUOEDD ARFOG?

YSGOLION IEUENCTID / CYMDEITHASOL / GWAITH  
CYMUNEDOL . GIG . CLYBIAU CHWARAEON  
AWDURDODAU LLEOL  
CANOLFANNAU GWEITHGAREDDAU

Dywedwch wrthym beth sy'n gweithio!



TAITH WRANDO CANOLFAN EFFAITH

**CYMRU**

05/06/2026  
07/07/2026

CAERDYDD  
YNYS MÔN

DARGANFYDDWCH FWY AC ARCHEBWCH  
[scipalliance.org/events](https://scipalliance.org/events)



**METHU YMUNNO?**  
Ffyrdd eraill o ddweud  
wrthym beth ydych  
chi'n ei feddwl yma

University of Winchester ethics approved: HSE16208



## DIWRNOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yn gyfle i ddangos eich cefnogaeth i'r dynion a'r menywod sy'n ffurfio cymuned y Lluoedd Arfog: o filwyr sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd i deuluoedd y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a chadetaid.

**#SALUTEOURFORCES**



Cliciwch yma am ragor o  
wybodaeth am sut i gymryd rhan

### **Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yng Nghymru 2026**

**DYDDIAD:** Dydd Sadwrn 27 Mehefin 2026

**LLEOLIAD:** Parc Gwledig Pen-bre, Sir Gaerfyrddin

Eleni, bydd Sir Gaerfyrddin yn cynnal Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yng Nghymru! Mae am ddim i fynychu ac mae'n anelu at ddod â'r cyhoedd at ei gilydd i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

# Cyllid


## Cyllid Llywodraeth Cymru

Yn 2026/27, mae Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer tîm llawn SSCE Cymru (Rheolwr Rhaglen, Swyddogion Cyswllt Ysgolion a Swyddog Arweiniol Cyfranogiad). Bydd cyllid yn parhau i fod ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru drwy'r rhaglen gymorth Rheoli Achosion a'r cynllun grant. Manylion llawn i'w cadarnhau ym mis Medi 2026.



## Cymorth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw eu Lluoedd Arfog.

 Gweler mwy o wybodaeth yma

## Ddogfen cyngor ariannol SSCE Cymru

Mae'r dogfennau hyn yn darparu cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant y Lluoedd Arfog / cymuned leol y Lluoedd Arfog. Mae'r rhestr wirio yn cynnwys camau gweithredu a awgrymir i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid. Mae'r ddogfen syniadau ac awgrymiadau yn cynnwys enghreifftiau o weithgareddau y gallai ymgeiswyr eu hymgorffori fel rhan o brosiectau a ariennir i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.


**Ar gael yma**

## Sesiynau galw heibio ariannol

Nod y sesiynau galw heibio anffurfiol hyn yw cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gael mynediad at gyllid i gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg.

### Sesiynau galw heibio sydd i ddod:

Dydd Llun 11 Mai 15:30-16:30  
Dydd Mercher 20 Mai 09:00-10:00  
Dydd Iau 4 Mehefin 09:00-10:00


 Gweler mwy o wybodaeth yma

## Rhaglen Cefnogi Disgyblion y Lluoedd Arfog 2027

Bydd y rhaglen 'Service Pupil Support Programme' (SPS) y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dyfarnu grantiau at brosiect annibynnol sy'n cael ei gyflwyno dros gyfnod o hyd at ddwy flynedd, i gefnogi plant y Lluoedd Arfog ar hyd eu llwybr addysgol.

Mae'r rhaglen SPS yn agored i ysgolion, lleoliadau Addysg Bellach ac awdurdodau lleol.

*NODER: Anogir ysgolion i weithio ar y cyd a gwneud cais mewn clwstwr.*

 [Gweler rhagor o wybodaeth yma](#)

### Themâu ar gyfer prosiect 2027 yw:

- Cau'r bwch.
- Cymorth i ddisgyblion gydag ADY.
- Symudedd, lleoli a gwahanu.
- Niferoedd isel o ddisgyblion y Lluoedd Arfog.

**DYDDIAD**  
**CAU: 30**  
**Medi**